***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1270 (Cy.129)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *7 Mai 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *10 Mai 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1, 7 , 35(1), 87(2) a (5)(a) a 88(2) a (4)(a) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**).

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Cymru) 2008. Mae'n gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 10 Mai 2008.

### Estyn diffiniad "anifail", "dofednod" a "clefyd"

**2.** At ddibenion Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn—

(a) estynnir diffiniad "anifail" ("*animal*") i gynnwys unrhyw fath o famal ac eithrio dyn, ac unrhyw greadur pedwartroed nad yw'n famal;

(b) estynnir diffiniad "dofednod" ("*poultry*") i gynnwys unrhyw rywogaeth o aderyn; ac

(c) estynnir diffiniad "clefyd" ("*disease*") i gynnwys unrhyw glefyd anifeiliaid a dofednod a all gael ei achosi gan un neu ragor o bathogenau anifeiliaid penodedig.

### Dehongli

**3.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

mae "anifail" ("*animal*") yn cynnwys dofednod;

ystyr "cludydd" ("*carrier*") yw unrhyw greadur byw ac eithrio dyn a all gludo neu drosglwyddo pathogen anifail penodedig neu feinwe, meithriniad celloedd, hylif corff, ysgarthion, carcas, neu ran o garcas y cyfryw greadur y gellir trosglwyddo neu gludo pathogen anifail penodedig ganddo neu drwy ei gyfrwng;

(**1**) 1981 p. 22. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw dir, adeilad neu le arall; ac

ystyr "pathogen anifail penodedig" ("*specified animal pathogen*") yw pathogen anifail a restrir yn Atodlen 1, gan gynnwys—

(a) pathogenau cyfan;

(b) pathogenau a wanhawyd neu a addaswyd yn enetig drwy unrhyw gyfrwng; ac

(c) unrhyw asid niwclëig sy'n deillio o bathogen anifail a restrir yn yr Atodlen honno a allai gynhyrchu'r pathogen hwnnw pan gâi ei gyflwyno i system fiolegol y mae'r asid niwclëig yn gallu dyblygu ynddo.

(2) Yn y Gorchymyn hwn nid yw "arolygydd" ("*inspector*") yn cynnwys arolygydd a benodwyd gan awdurdod lleol.

(3) Rhaid i drwydded neu hysbysiad a ddyroddir o dan y Gorchymyn hwn fod yn ysgrifenedig, caiff fod yn ddarostyngedig i amodau a chaniateir ei ddiwygio, ei atal neu ei ddirymu drwy hysbysiad ysgrifenedig ar unrhyw adeg.

### Gwaharddiadau mewn perthynas â phathogenau anifeiliaid penodedig

**4.**—(1) Ni chaiff neb feddu ar—

(a) unrhyw bathogen anifail a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1; neu

(b) unrhyw gludydd y gwyr fod y cyfryw bathogen ynddo,

ac eithrio o dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru.

(2) Ni chaiff neb gyflwyno unrhyw bathogen anifail a bennir yn naill ai Rhan 1 neu Ran 2 o'r Atodlen honno i unrhyw anifail yn fwriadol, ac eithrio o dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i berson hysbysu Gweinidogion Cymru ar unwaith os yw'r person hwnnw—

(a) yn meddu ar unrhyw beth yn ei gylch y mae ganddo sail resymol dros amau bod pathogen anifail a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1 yn bresennol, a

(b) heb drwydded ar gyfer y pathogen hwnnw.

### Eithriadau

**5.**—(1) Nid yw erthygl 4 yn gymwys i unrhyw berson sy'n cludo pathogen neu gludydd ac nad yw'n berchen ar y pathogen na'r cludydd hwnnw neu nad oes ganddo unrhyw hawliau ynddynt.

(2) Nid yw erthygl 4 yn gymwys o ran unrhyw bathogen na chludydd a geir mewn cynnyrch—

(a) a awdurdodir i'w roi ar y farchnad yn y Deyrnas Unedig fel cynnyrch meddyginiaethol milfeddygol, neu a awdurdodir i'w roi i anifail yn y Deyrnas Unedig;

(b) a awdurdodir i'w roi ar y farchnad o dan Reoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Awdurdodiadau Marchnata etc.) 1994(**2**);

(c) a drwyddedwyd yn unol â darpariaethau adran 7(2) o Ddeddf Meddyginiaethau 1968(**3**).

### Pwerau arolygwyr

**6.** Yn ychwanegol at y pwerau a nodir yn Neddf Iechyd Anifeiliaid 1981, mae gan arolygydd sy'n gorfodi'r Gorchymyn hwn y pwerau a nodir yn Atodlen 2.

(**2**) O.S. 1994/3144.
(**3**) 1968 p. 67.

**Hysbysiadau gwella**

**7.**—(1) Os yw arolygydd yn barnu bod person—

(a) yn cyflawni unrhyw weithgaredd sy'n torri un neu ragor o amodau trwydded a ddyroddwyd o dan y Gorchymyn hwn, neu

(b) wedi torri un neu ragor o'r amodau hynny mewn amgylchiadau sy'n ei gwneud yn debygol y bydd y toramod yn parhau neu'n cael ei ailadrodd,

caiff yr arolygydd hwnnw gyflwyno hysbysiad ("hysbysiad gwella") i'r person hwnnw.

(2) Rhaid i hysbysiad gwella—

(a) pennu amodau'r drwydded a dorrwyd;

(b) esbonio'r rhesymau paham y mae'r arolygydd o'r farn honno; ac

(c) ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw unioni'r toramod neu'r materion sydd yn ei achosi, cyn pen y cyfnod a gaiff ei bennu yn yr hysbysiad.

(3) Rhaid i hysbysiad gynnwys cyfarwyddiadau ynghylch y mesurau i'w cymryd i unioni unrhyw doramod neu fater y mae a wnelo'r hysbysiad ag ef; a chaniateir llunio'r cyfryw gyfarwyddiadau mewn dull sy'n rhoi dewis i'r person y cyflwynir yr hysbysiad iddo rhwng ffyrdd gwahanol o unioni'r toramod neu'r mater.

**Hysbysiadau gwahardd**

**8.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw weithgareddau y mae trwydded yn ofynnol ar eu cyfer o dan y Gorchymyn hwn.

(2) Os yw arolygydd yn barnu bod y gweithgareddau yn cynnwys neu y gallant gynnwys risg o niwed difrifol i anifeiliaid, caiff yr arolygydd gyflwyno hysbysiad ("hysbysiad gwahardd") i'r person hwnnw.

(3) Rhaid i hysbysiad gwahardd—

(a) datgan bod yr arolygydd o'r farn honno;

(b) pennu'r materion sydd ym marn yr arolygydd yn achosi neu y gallant achosi risg o niwed difrifol i anifeiliaid; ac

(c) cyfarwyddo na chaniateir cyflawni'r gweithgareddau y mae a wnelo'r hysbysiad â hwy oni bai bod y materion a bennir yn yr hysbysiad wedi cael eu hunioni.

(4) Mae cyfarwyddyd a geir mewn hysbysiad gwahardd o dan is-baragraff (3)(c) yn effeithiol—

(a) ar ddiwedd y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad; neu

(b) os yw'r hysbysiad yn datgan hynny, ar unwaith.

**Apelau yn erbyn hysbysiadau gwella a gwahardd**

**9.**—(1) Caiff person y mae hysbysiad gwella neu wahardd yn cael ei gyflwyno iddo apelio yn erbyn yr hysbysiad cyn pen 21 o ddiwrnodau i'r person a benodir at y diben hwnnw gan Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i'r person penodedig ystyried yr apêl ac unrhyw sylwadau a gyflwynir gan Weinidogion Cymru ac adrodd yn ysgrifenedig, gan argymell camau gweithredu, i Weinidogion Cymru.

(3) Yna caiff Gweinidogion Cymru naill ai ddiddymu'r hysbysiad neu ei gadarnhau, gyda neu heb addasiadau, a rhaid iddynt hysbysu'r apelydd gan roi'r rhesymau dros eu penderfyniad.

**Trwyddedau**

**10.** Ni chaiff unrhyw berson dorri amod trwydded a osodir ar y person hwnnw.

### Gorfodi

**11.** Gorfodir y Gorchymyn hwn gan Weinidogion Cymru.

### Dirymiadau

**12.** Dirymir y gorchmynion canlynol—

(a) Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig 1998(**4**) wrth ei gymhwyso i Gymru; a

(b) Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Diwygio) (Cymru) 2006(**5**).

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

7 Mai 2008

(**4**) O.S. 1998/463.
(**5**) O.S. 2006/2981 (Cy.272).

ATODLEN 1 Erthygl 3

Pathogenau anifeiliaid penodedig

# RHAN 1

**1.** Feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau

**2.** Feirws clwy Affricanaidd y moch

**3.** Feirws clefyd Aujesky

**4.** Feirysau ffliw adar sydd —

(a) heb eu nodweddu;

(b) Feirysau Teip A sydd â mynegrif pathogenedd mewnwythiennol mewn cywion chwe wythnos oed sy'n fwy na 1.2; neu

(c) Feirysau Teip A is-deip H5 neu H7 y mae dilyniannu niwcleotid wedi dangos amryw o asidau amino basig yn safle holltiad hæmaglwtinin.

**5.** *Babesia bovis*

**6.** *Babesia bigemina*

**7.** *Babesia caballi*

**8.** *Bacillus anthracis*

**9.** Feirws y tafod glas

**10.** Feirws lewcosis buchol

**11.** *Brucella abortus*

**12.** *Brucella melitensis*

**13.** *Brucella ovis*

**14.** *Brucella suis*

**15.** *Burkholderia mallei*

**16.** Feirws clwy clasurol y moch

**17.** *Cochliomyia hominivorax*

**18.** Feirysau enseffalomyelitis ceffylaidd Dwyreiniol a Gorllewinol

**19.** *Echinococcus multilocularis*

**20.** *Echniococcus granulosus*

**21.** *Ehrlichia ruminantium*

**22.** Feirws anemia heintus ceffylaidd

**23.** Feirws clwy'r traed a'r genau

**24.** Feirws clefyd Hendra

**25.** *Histoplasma farciminosum*

**26.** Feirws enseffalitis Siapaneaidd

**27.** Feirws clefyd y croen talpiog

**28.** *Mycoplasma agalactiae*

**29.** *Mycoplasma capricolum* is-rywogaeth *capripneumoniae*

**30.** *Mycoplasma mycoides* is-rywogaeth *mycoides SC* ac amrywolion *mycoides LC*

**31.** *Mycoplasma mycoides* amr *capri*

**32.** Feirysau clefyd Newcastle (paramycsofeirws adar teip 1) sydd—

(a) heb eu nodweddu; neu

(b) â mynegrif pathogenedd mewnymenyddol mewn cywion diwrnod oed o 0.4 neu ragor, pan roddir dim llai na 10 miliwn o ddosau wyau heintus 50% (EID50) i bob aderyn yn y prawf.

**33.** Feirws clefyd Nipah

**34.** Feirws peste des petits ruminants

**35.** Feirws y gynddaredd a phob feirws o'r genws *Lyssavirus*

**36.** Feirws twymyn y Dyffryn Hollt

**37.** Feirws Rinderpest

**38.** Feirws enseffalomyelitis ceffylaidd St. Louis

**39.** Feirws brech y defaid a'r geifr

**40.** Feirws clefyd pothellog y moch

**41.** Feirws clefyd Teschen

**42.** *Theileria annulata*

**43.** *Theileria equi*

**44.** *Theileria parva*

**45.** *Trichinella spiralis*

**46.** *Trypanosoma brucei*

**47.** *Trypanosoma congolense*

**48.** *Trypanosoma equiperdum*

**49.** *Trypanosoma evansi*

**50.** *Trypanosoma simiae*

**51.** *Trypanosoma vivax*

**52.** Feirws enseffalomyelitis ceffylaidd Venezuela

**53.** Feirws stomatitis pothellog

**54.** Feirws Nil Orllewinol

## RHAN 2

**55.** Y feirws byw sy'n achosi clefyd gwaedlifol firaol mewn cwningod

ATODLEN 2 — Erthygl 6

Pwerau arolygwyr

## Pwerau cyffredinol arolygwyr

**1.**—(1) Caniateir i unrhyw bersonau y mae'r arolygydd yn barnu eu bod yn angenrheidiol fynd gyda'r arolygydd.

(2) At ddibenion gorfodi'r Gorchymyn hwn caiff arolygydd—

(a) cymryd unrhyw gyfarpar neu ddeunyddiau angenrheidiol i'r fangre;

(b) gwneud unrhyw archwiliad ac ymchwiliad a all fod yn angenrheidiol o dan unrhyw amgylchiadau, a chaiff gyfarwyddo na ddylid tarfu (p'un ai yn gyffredinol neu mewn agweddau penodol) ar y fangre, unrhyw ran o'r fangre neu unrhyw beth yn y fangre cyhyd ag y bo'n rhesymol angenrheidiol at ddiben unrhyw archwiliad neu ymchwiliad;

(c) cymryd mesuriadau neu dynnu lluniau neu wneud recordiadau;

(ch) cymryd samplau o unrhyw eitemau neu sylweddau, neu'r atmosffer (yn y fangre ac wrth ymyl y fangre);

(d) achosi i unrhyw eitem neu sylwedd gael ei ddatgymalu neu ei ddarostwng i unrhyw broses neu brawf (ond nid er mwyn ei niweidio neu ei ddistrywio oni bai bod hynny'n angenrheidiol o dan yr amgylchiadau at ddiben y broses neu'r prawf);

(dd) cymryd meddiant o unrhyw eitem neu sylwedd a'i ddal dan gadw am gyhyd ag y bo'n angenrheidiol—

(i) i'w archwilio a gwneud unrhyw beth iddo y mae gan yr arolygydd bŵer i'w wneud;

(ii) i sicrhau nad ymyrrir ag ef cyn cwblhau'r archwiliad;

(iii) i sicrhau ei fod ar gael i'w ddefnyddio fel tystiolaeth mewn unrhyw achos sifil neu droseddol;

(e) ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson y mae gan yr arolygydd achos rhesymol dros gredu y gall roi unrhyw wybodaeth (gan gynnwys enw a chyfeiriad y person hwnnw) sy'n berthnasol i unrhyw archwiliad neu ymchwiliad yn ateb (yn absenoldeb personau heblaw person a enwyd gan y person hwnnw i fod yn bresennol ac unrhyw bersonau y caniateir gan yr arolygydd i fod yn bresennol) unrhyw gwestiynau y mae'r arolygydd yn barnu ei bod yn briodol eu gofyn ac yn llofnodi datganiad o wirionedd yr atebion;

(f) gwneud y canlynol yn ofynnol, sef dangos unrhyw drwydded neu gofnod a ddyroddir o dan y Gorchymyn hwn, eu harolygu a chymryd copïau ohonynt, neu eu symud ymaith er mwyn galluogi iddynt gael eu copïo a'u harchwilio;

(ff) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi'r cyfryw gyfleusterau a chymorth o ran unrhyw faterion neu bethau o dan reolaeth y person hwnnw neu y mae gan y person hwnnw gyfrifoldebau mewn perthynas ag ef sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi'r arolygydd i arfer unrhyw un o'r pwerau a roddir iddo gan yr Atodlen hon;

(g) cael mynediad at, archwilio a gwirio gweithrediad unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw gyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig a ddefnyddir neu a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â'r cofnodion; ac at y diben hwn, caiff ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sydd â gofal y cyfrifiadur, y cyfarpar neu'r deunydd, neu sy'n ymwneud fel arall â gweithredu'r cyfrifiadur, y cyfarpar neu'r deunydd, roi unrhyw gymorth sy'n rhesymol ofynnol, a phan gedwir cofnod drwy gyfrwng cyfrifiadur, caiff ei gwneud yn ofynnol bod cofnodion yn cael eu cyflwyno ar ffurf sy'n caniatáu mynd â hwy oddi yno.

(3) Mae'n rhaid i arolygydd sy'n bwriadu arfer y pŵer a roddir iddo gan is-baragraff (2)(d) uchod yn achos eitem neu sylwedd y deuir o hyd iddo mewn unrhyw fangre, os gofynnir iddo gan

berson sydd ar y pryd yn bresennol yn y fangre honno ac sydd â chyfrifoldebau mewn perthynas â'r fangre honno, achosi i unrhyw beth sydd i'w wneud yn rhinwedd y pŵer hwnnw gael ei wneud ym mhresenoldeb y person hwnnw.

(4) Cyn arfer y pŵer a roddir gan is-baragraff (2)(d) yn achos unrhyw eitem neu sylwedd, rhaid i arolygydd ymgynghori â'r personau hynny yr ymddengys ei bod yn briodol ymgynghori â hwy at ddiben canfod pa beryglon, os oes rhai, a all fod mewn gwneud unrhyw beth y bwriedir ei wneud o dan y pŵer hwnnw.

(5) Pan fo arolygydd yn cymryd meddiant o unrhyw eitem neu sylwedd y deuir o hyd iddo mewn unrhyw fangre, rhaid i'r arolygydd adael hysbysiad yno, naill ai gyda pherson cyfrifol neu, os yw hynny'n anymarferol, wedi ei osod mewn lle amlwg, a hwnnw'n hysbysiad sy'n rhoi manylion am yr eitem neu'r sylwedd hwnnw sy'n ddigonol i'w adnabod ac sy'n datgan ei fod wedi ei gymryd o dan y pŵer hwnnw; a chyn cymryd meddiant o'r cyfryw sylwedd o dan y pŵer hwnnw rhaid i arolygydd, os yw'n ymarferol i wneud hynny, gymryd sampl ohono a rhoi i berson cyfrifol yn y fangre gyfran o'r sampl wedi ei marcio mewn dull sy'n ddigonol i'w hadnabod.

(6) Nid yw unrhyw ateb a roddir gan berson yn unol â gofyniad a orfodir o dan is-baragraff (2)(e) yn dderbyniol mewn tystiolaeth yn erbyn y person hwnnw neu yn erbyn priod neu bartner sifil y person hwnnw mewn unrhyw achos.

## Ymafael mewn pathogenau

**2.**—(1) Pan fo gan arolygydd sail resymol dros amau bod pathogen anifail penodedig neu gludydd ym meddiant person nad yw'n dal trwydded sy'n ofynnol gan y Gorchymyn hwn neu yn groes i amod trwydded a roddir o dan y Gorchymyn hwn, caiff yr arolygydd hwnnw ar unrhyw adeg ymafael yn, neu beri ymafael yn, y cyfryw bathogen, cludydd neu unrhyw ddeunydd y mae'r arolygydd yn amau yn rhesymol bod y cyfryw bathogen wedi cael ei gadw ynddo neu y mae'n amau yn rhesymol ei fod wedi cael ei gyflwyno iddo.

(2) Os yw'r arolygydd yn barnu ei bod yn hwylus i wneud hynny, caiff yr arolygydd hwnnw at ddiben atal cyflwyno neu ledaenu clefyd, ddal dan gadw, trin neu ddistrywio unrhyw bathogen, cludydd neu ddeunydd a ymafaelwyd.

## Glanhau a diheintio

**3.**—(1) Caiff arolygydd, drwy hysbysiad a gyflwynir i feddiannydd unrhyw fangre (gan gynnwys tŷ annedd) neu i berchennog neu berson sydd â gofal unrhyw gerbyd y mae pathogen penodedig, cludydd neu ddeunydd yn bresennol ynddo neu wedi bod yn bresennol ynddo yn groes i'r Gorchymyn hwn neu yn groes i drwydded a ddyroddir odano, ei gwneud yn ofynnol i'r person y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo lanhau a diheintio'r cyfryw fangre, lle neu gerbyd mewn unrhyw ddull y caniateir i'r arolygydd drwy'r cyfryw hysbysiad ei bennu, ar draul y person y cyflwynir yr hysbysiad iddo.

(2) Pan na chydymffurfiwyd â gofynion y cyfryw hysbysiad, caiff yr arolygydd wneud neu beri gwneud y gwaith glanhau a diheintio a bennir yn yr hysbysiad ar draul y person y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn ailddeddfu gyda diwygiadau Orchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig 1998 (O. S. 1998/463) fel y mae'n gymwys i Gymru.

Y prif newid yw darparu ar gyfer pwerau ychwanegol i arolygwyr (Atodlen 2).

Fel yn y Gorchymyn blaenorol, mae'n darparu ei bod yn ofynnol cael trwydded oddi wrth Weinidogion Cymru i feddu ar bathogen anifail a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1 neu i gyflwyno i anifail bathogen anifail a bennir yn Rhannau 1 a 2 o'r Atodlen honno.